




Yr iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2018/19

30 Gorffennaf 2020
SB 25/2020

Mae'r bwletin hwn yn darparu gwybodaeth am fyfyrwyr mewn addysg uwch sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach (prifysgolion a cholegau) yng Nghymru. Mae hefyd yn ymdrin â staff addysg uwch sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac athrawon dan hyfforddiant sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Myfyrwyr yng Nghymru yn ôl faint o gredydau y maen nhw wedi'u hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg(a) a'r flwyddyn



a) Addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach wedi'i heithrio.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA drwy Lywodraeth Cymru

- O'r 5,575 o fyfyrwyr a astudiodd o leiaf 5 o gredydau drwy'r Gymraeg, astudiodd 2,510 o leiaf 40 credyd yn Gymraeg; astudiodd 1,340 o leiaf 80 credyd yn Gymraeg; ac astudiodd 710 120 o gredydau drwy'r Gymraeg.
- Derbyniodd 265 yn llai o fyfyrwyr rywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018/19 o'i gymharu â 2017/18. Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr oedd yn cymryd o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16, yn rhannol oherwydd gwell cyhoedduswydd i'r cyrsiau Cymraeg byr ar eu campws yng Ngholeg Sir Gâr. Mae'r Brifysgol wedi nodi bod y ddarpariaeth hon wedi lleihau ers hynny ac mae hyn yn cyfrif am lawer o'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg dros y tair blynedd ddiwethaf.
- Mae nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg wedi cynyddu 49 y cant rhwng 2011/12 a 2018/19.

Ynglŷn â'r bwletin hwn

Daw'r data sydd wedi'u cynnwys yma o Gofnod Myfyrwyr a Chofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Oni nodir yn wahanol, mae myfyrwyr o Gymru sydd wedi'u cofrestru yn y Brifysgol Agored ac cofrestradau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach wedi'u cynnwys yn y data, ac mae'r ffigurau'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2017/18.

Yn y bwletin hwn

Cefndir y polisi	2
Myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru	4
Pynciau modiwlau	10
Siaradwyr Cymraeg	12
Addysg Gychwynnol i Athrawon	14
Staff	16
Methodoleg	21
Diffiniadau	23
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	26

Cefndir y polisi

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r [Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) yn gweithio gyda phrifysgolion ledled Cymru i ddatblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. Mae wedi ariannu darlithwyr cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig ysgoloriaethau i alluogi israddedigion ac uwchraddedigion i astudio cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Targedau

Yn y bwletin hwn:

- dim ond y ffigurau o sefydliadau addysg bellach o 2016/17 ymlaen a gaiff eu cynnwys;
- defnyddir y nifer sydd wedi cofrestru yn hytrach na chyfrif pennau;
- mae'r ffigurau'n cynnwys pob modiwl sy'n cael ei astudio mewn blwyddyn, yn hytrach na phob modiwl a gychwynwyd mewn blwyddyn.

Oherwydd hyn, ni ellir defnyddio'r bwletin hwn i asesu perfformiad yn erbyn y targedau. Er hyn, mae'r targedau'n gyd-destun defnyddiol ac yn rhoi rhyw syniad ynglŷn â chyfeiriad a maint y newid.

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd CCAUC fesurau perfformiad ar gyfer addysg uwch yn ystod cyfnod ei strategaeth gorfforaethol gyfredol, 2017-20. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y myfyrwyr ar gyrsiau addysg uwch sy'n astudio o leiaf 5 credyd ac o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllido'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o 2017-18 ymlaen. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 a 40 credyd yn Gymraeg yn dal i gael ei fonitro, ac ar ôl cyhoeddi Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg sefydlir targedau hirdymor newydd.

Addysg Gychwynol i Athrawon

Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a datganiad polisi dilynol, [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y Camau Nesaf](#), a gyhoeddwyd ym Mawrth 2016, yn cydnabod bod angen gweithlu cyfrwng Cymraeg sy'n darparu digon o ymarferwyr ar gyfer pob cam o'r broses addysg.

Cymraeg 2050

Cyhoeddwyd [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#). Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2017.

Staff

Mae'r adran hon yn cynnwys nifer y staff academiaidd sy'n cael ei gyflogi mewn prifysgolion yng Nghymru, ac yn nodi a ydynt yn addysgu, neu'n gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Ar y dechrau, roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ariannu swyddi academiaidd er mwyn hyrwyddo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O 2017/18 ymlaen roedd y Coleg wedi ariannu 16 o Grantiau Pwnc i gefnogi darpariaeth addysg uwch yn ogystal â swyddi academiaidd. Yn 2018/19, cafodd 24 o Grantiau Pwnc eu hariannu, a chafodd 4 Grant Catalydd eu sefydlu i gyflwyno darpariaeth addysg uwch newydd.

Y swm sy'n cael ei astudio mewn credydau

Cyflwynir y swm sy'n cael ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn credydau, ac nid fel canran o addysg y myfyriwr. Mae hyn yn rhoi gwell darlun o wir swm y dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae credydau hefyd yn ein galluogi i gymharu'n well â'r targedau. Ceir rhagor o wybodaeth yn y [Diffiniadau](#).

Y Brifysgol Agored

Mae myfyrwyr o Gymru sy'n mynychu'r Brifysgol Agored yn cael eu cynnwys erbyn hyn. Mae'r rhan fwyaf o ddatganiadau ystadegol addysg uwch Llywodraeth Cymru yn cynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored, ac maent wedi cael eu cynnwys yn y targedau.

Cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn mewn data pynciau

Mae data pynciau yn cael eu hadrodd ar ffurf cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE) yn hytrach na chyfrifiadau Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE). Mae'n haws cymharu cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn â'r ffigurau eraill yn y bwletin.

Cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn mewn data staff

Mae ffigurau staff yn cael eu hadrodd yn awr ar ffurf cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn. Cyn hyn, oni nodid yn wahanol, roeddent yn cael eu hadrodd mewn niferoedd crai. Byddai hyn yn golygu bod staff sydd â chontractau mewn mwy nag un ardal yn cael eu cyfrif ddwywaith.

Adran A: Myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru


Mae'r adran hon yn ymdrin â myfyrwyr a aeth i brifysgol yng Nghymru ac a astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae myfyrwyr yn cael eu gwahanu nawr yn ôl faint o gredydau y gwnaethant eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn honno. Cyfrifir faint yn union y mae'r myfyrwyr yn ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai myfyrwr yn astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel astudio 10 credyd yn Gymraeg. Mae'r categorïau *rhywfaint/5/40/80/120* hefyd yn gorgyffwrdd. Mae pawb sy'n astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg hefyd yn cael ei gynnwys yn y categorï astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

Gwelwyd gostyngiad mawr yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn i'w weld ym Mhrifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant, sydd wedi nodi bod eu darpariaeth o ran cyrsiau Gymraeg byr wedi lleihau ers 2015/16.

Mae dadansoddiad pellach o'r data i'w weld ar [StatsCymru](#).

Siart A.1: Myfyrwyr yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl lefel a dull astudio ^{(a)(b)}



(a) Nid yw'n cynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored.

(b) Mae nifer bach o fyfyrwyr o Brifysgol Casnewydd/De Cymru heb eu cynnwys yn ffigurau 2011/12 a 2013/14.

[\[Gweld y data\]](#)

- Mae'r tueddiadau hyn yn amrywio yn dibynnu ar nifer y credydau, gyda'r cynnydd mwyaf i'w gweld ymhlith myfyrwyr sy'n astudio rhannau llai o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae nifer y myfyrwyr llawn amser sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu yn gyffredinol ar gyfer myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ers 2008/09, gyda nifer y myfyrwyr ôl-raddedig amser llawn wedi mwy na dyblu.
- Dylid edrych ar y gostyngiad yn nifer yr israddedigion rhan-amser sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyd-destun gostyngiad cyson yn nifer yr israddedigion rhan-amser sy'n astudio drwy gyfrwng unrhyw iaith mewn prifysgolion yng Nghymru.

- Cyrhaeddodd nifer yr myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser uchafbwynt yn 2014/15 o ganlyniad i'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol a oedd yn cael ei chynnig am ddim i Athrawon Newydd Gymhwysu. Mae nifer yr graddedigion rhan-amser wedi gostwng eleni a bellach ychydig yn is na'r niferoedd yn 2011/12.

Tabl A.1: Faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru (b)

Cofrestrïadau	Cofrestrïadau a chanrannau						
	2012/13	2013/14 (a)	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Rhywfaint o addysg gyfrwng Cymraeg (c) Sydd yn hafal i	5,560	5,260	6,445	7,780	6,870	6,205	5,940
o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	5,115	5,000	5,875	7,070	5,885	5,315	5,575
o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	2,340	2,430	2,435	2,800	2,265	2,410	2,510
o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	1,390	1,410	1,365	1,370	1,320	1,300	1,340
o leiaf 120 credyd yn Gymraeg	870	885	885	825	690	710	710
Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	131,955	131,885	126,530	120,905	121,135	121,720	124,565
Pob cofrestrïad	137,520	137,145	132,975	128,685	128,005	127,925	130,510
Canrannau (%)							
Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	4.0	3.8	4.8	6.0	5.4	4.9	4.6
o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	3.7	3.6	4.4	5.5	4.6	4.2	4.3
o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	1.7	1.8	1.8	2.2	1.8	1.9	1.9
o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	1.0	1.0	1.0	1.1	1.0	1.0	1.0
o leiaf 120 credyd yn Gymraeg	0.6	0.6	0.7	0.6	0.5	0.6	0.5
Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	96.0	96.2	95.2	94.0	94.6	95.1	95.4

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

(a) Adroddodd Prifysgol Casnewydd, sydd bellach yn rhan o Brifysgol De Cymru, am ragor o fyfyrwyr a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg nad ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl. Y niferoedd yw 74 yn 2013/14.

(b) Addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach wedi'i heithrio.

(c) Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio rhai credydau yn Gymraeg yn cynnwys nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5, 40, 80 a 120 credyd yn Gymraeg. Yn dilyn y patrwm hwn, mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40, 80 a 120 credyd yn Gymraeg. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 80 a 120 credyd yn Gymraeg. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 80 credyd yn Gymraeg yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 120 credyd yn Gymraeg.

[\[Gweld y data\]](#)

- Fe wnaeth 5,575 o fyfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg yn 2018/19. O'r rhain, fe wnaeth 2,510 astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg, fe wnaeth 1,340 astudio o leiaf 80 credyd ac o'r rhain fe wnaeth 710 astudio 120 credyd.
- Mae nifer cyffredinol y myfyrwyr sy'n astudio credydau yn Gymraeg wedi gostwng o 6,205 yn 2017/18 i 5,575 yn 2018/19. Fodd bynnag, mae nifer y rhai sy'n astudio o leiaf 5, 40 neu 80 credyd wedi cynyddu. Daw'r gostyngiad cyffredinol yn bennaf o blith myfyrwyr sy'n astudio llai na 5 credyd yn Gymraeg.
- Derbyniodd 265 yn llai o fyfyrwyr rywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018/19 o'i gymharu â 2017/18, gostyngiad o 4 y cant o'r naill flwyddyn i'r llall.
- Gan fod y fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu'r targedau yn wahanol, ni ellir eu cymharu'n hollol. Fodd bynnag, mae'r data yn awgrymu y rhagorwyd ar y targed o 5,600 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg mewn blynyddoedd blaenorol, ond methwyd â chynnal ers 2017/18. Methwyd hefyd â chyrraedd y targed o 3,030 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd yn 2016/17 a 2017/18 ac mae'r ffigurau'n parhau i fod o dan y lefel honno yn 2018/19.

Tabl A.2: Myfyrwyr prifysgol, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2018/19

Cofrestriadau a chanrannau

Cofrestriadau	Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg					Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg		Pob cofrestriadau
	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	o leiaf 120 credyd yn Gymraeg	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 120 credyd yn Gymraeg		
Prifysgol Bangor	1,330	1,320	885	630	260	8,865	10,195	
Prifysgol Glyndŵr	65	65	*	*	*	5,830	5,895	
Prifysgol Aberystwyth	395	390	315	140	60	7,450	7,845	
Drindod Dewi Sant	2,680	2,510	525	245	215	8,455	11,135	
Prifysgol Abertawe	545	420	210	45	30	20,075	20,620	
Prifysgol De Cymru	120	120	85	35	25	22,205	22,330	
Prifysgol Caerdydd	365	360	225	105	70	32,825	33,190	
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	290	290	265	140	50	10,385	10,675	
Brifysgol Agored	155	95	*	*	*	8,470	8,625	
Pob Sefydliadau Addsyg Uwch	5,940	5,575	2,510	1,340	710	124,565	130,510	
Grwp Llandrillo Menai	330	330	215	70	30	1,080	1,410	
Grwp NPTC	*	*	*	*	*	165	165	
Gower College Swansea	*	*	*	*	*	130	130	
Pob sefydliad	6,270	5,905	2,720	1,410	740	125,940	132,210	
Canrannau (%)								
Prifysgol Bangor	13.0	12.9	8.7	6.2	2.5	87.0		
Prifysgol Glyndŵr	1.1	1.1	-	-	-	98.9		
Prifysgol Aberystwyth	5.0	5.0	4.0	1.8	0.8	95.0		
Drindod Dewi Sant	24.1	22.5	4.7	2.2	1.9	75.9		
Prifysgol Abertawe	2.6	2.0	1.0	0.2	0.1	97.4		
Prifysgol De Cymru	0.5	0.5	0.4	0.2	0.1	99.5		
Prifysgol Caerdydd	1.1	1.1	0.7	0.3	0.2	98.9		
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	2.7	2.7	2.5	1.3	0.5	97.3		
Brifysgol Agored	1.8	1.1	-	-	-	98.2		
Pob Sefydliadau Addsyg Uwch	4.6	4.3	1.9	1.0	0.5	95.4		
Grwp Llandrillo Menai	23.4	23.4	15.2	5.0	2.3	76.6		
Grwp NPTC	-	-	-	-	-	100.0		
Gower College Swansea	-	-	-	-	-	100.0		
Pob sefydliad	4.7	4.5	2.1	1.1	0.6	95.3		

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) □

[\[Gweld y data\]](#)

- Fe wnaeth llai na 1 y cant o'r myfyriwr mewn prifysgolion yng Nghymru astudio 120 credyd neu ragor yn Gymraeg yn 2018/19. Roedd y gyfran uchaf ym Mhrifysgol Bangor (2.5 y cant).
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr (2,680) a'r gyfran fwyaf o'i myfyrwyr (24 y cant) yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r nifer hwn wedi gostwng 2 o bwyntiau canran, o 2,685 yn 2017/18.
- O bob Sefydliad Addysg Uwch, Prifysgol De Cymru oedd â'r gyfran leiaf (<1 y cant)) o fyfyrwyr a oedd yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Caerdydd oedd wedyn gyda 1 y cant o fyfyrwyr yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda'i gilydd yn gyfrifol am bron i ddau draean (64%) o'r holl addysg a dderbyniwyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl A.3: Dull astudio myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2018/19

Cofrestriadau	<i>Cofrestriadau a chanrannau</i>						Pob Cofrestriadau
	Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	o leiaf 120 credyd yn Gymraeg	Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	
	Llawm-amser	5,245	5,015	2,570	1,375	735	
Rhan-amser	1,025	890	155	35	5	34,165	35,190
Pob dull	6,270	5,905	2,720	1,410	740	125,940	132,210
<i>Canrannau (%)</i>							
Llawm-amser	5.4	5.2	2.6	1.4	0.8	94.6	
Rhan-amser	2.9	2.5	-	-	-	97.1	
Pob dull	4.7	4.5	2.1	1.1	0.6	95.3	

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) □

[\[Gweld y data\]](#)

- Roedd 5 o bob 6 o fyfyrwyr llawn-amser yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Derbyniodd cyfran uwch o fyfyrwyr llawn-amser rywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (5.4 y cant), o gymharu â myfyrwyr rhan-amser (2.9 y cant).

Tabl A.4: Lefel astudio myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2018/19

Cofrestriadau	Cofrestriadau a chanrannau						
	Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	o leiaf 120 credyd yn Gymraeg	Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	Pob cofrestriadau
Ymchwil ôl-radd	90	70	50	30	20	4,430	4,520
Cwrs ôl-radd a addysgir	790	750	305	210	180	21,450	22,245
Gradd gyntaf	4,400	4,160	2,115	1,070	490	79,775	84,175
Israddedig eraill	995	920	255	100	55	20,280	21,275
Addysg Uwch	6,270	5,905	2,720	1,410	740	125,940	132,210
Canrannau (%)							
Ymchwil ôl-radd	2.0	1.6	1.1	0.7	-	98.0	
Cwrs ôl-radd a addysgir	3.6	3.4	1.4	0.9	0.8	96.4	
Gradd gyntaf	5.2	4.9	2.5	1.3	0.6	94.8	
Israddedig eraill	4.7	4.3	1.2	-	-	95.3	
Addysg Uwch	4.7	4.5	2.1	1.1	0.6	95.3	

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) □

[\[Gweld y data\]](#)

- Y gyfran fwyaf o fyfyrwyr a oedd yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn astudio o leiaf 5, 40 a 80 o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg oedd myfyrwyr gradd cyntaf. Roedd myfyrwyr ôl-radd a addysgir yn ail agos yn y categorïau hyn, a nhw oedd â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr a oedd yn astudio o leiaf 120 credyd drwy'r Gymraeg.

Tabl A.5: Rhyw myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2018/19

Cofrestriadau	Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg					Cofrestriadau a chanrannau Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg		Pob cofrestriadau
	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	o leiaf 120 credyd yn Gymraeg	Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	Pob cofrestriadau		
Gwrywaidd	1,910	1,765	705	320	160	55,710	57,625	
Benywaidd	4,360	4,135	2,015	1,090	580	70,075	74,430	
Personau	6,270	5,905	2,720	1,410	740	125,940	132,210	
<i>Canrannau (%)</i>								
Gwrywaidd	3.3	3.1	1.2	0.6	-	96.7		
Benywaidd	5.9	5.6	2.7	1.5	0.8	94.1		
Personau	4.7	4.5	2.1	1.1	0.6	95.3		

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) □

[\[Gweld y data\]](#)

- Roedd mwy o fenywod yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg nag o wrywod ym mhob categori dwysedd.
- Ar gyfer pob 10 o fyfyrwyr a oedd yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd 7 yn ferched a 3 yn ddynion.

Tabl A.6: O ble mae myfyrwyr sefydliadau Cymru yn hanu, 2018/19

Cofrestriadau	Hanu o Gymru	Cofrestriadau	
		Ddim yn hanu o Gymru	Pob cofrestriadau
Rhywfaint o addysg gyfrwng Cymraeg	5,775	495	6,270
o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	5,490	415	5,905
o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	2,655	65	2,720
o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	1,380	30	1,410
o leiaf 120 credyd yn Gymraeg	740	5	740
Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	63,925	61,995	125,940
Pob cofrestriad	69,700	62,495	132,210

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) □

[\[Gweld y data\]](#)

Cyfeiriad myfyrwyr cyn dechrau ar eu haddysg uwch yw'r sail wrth nodi o ble mae myfyrwyr yn hanu. Efallai fod rhai nad ydynt yn hanu o Gymru ac sy'n dysgu drwy'r Gymraeg wedi eu magu yng Nghymru ond wedi symud i wlad arall cyn dechrau ar eu haddysg uwch.

- Yn sefydliadau Cymru, cafodd bron i 1 o 10 o fyfyrwyr o Gymru rywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg, lle cafodd 1 o 100 o fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru rywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg.
- Ychydig iawn o fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru a astudiodd 120 o gredydau drwy'r Gymraeg.

Adran B: Pynciau modiwlau

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r dadansoddiad fesul pwnc o'r myfyrwyr a aeth i brifysgol yng Nghymru ac a astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfrifir y pynciau y mae myfyriwr yn eu hastudio fesul modiwl, yn wahanol i ddata eraill a gyhoeddir am addysg uwch. Mae hyn oherwydd bod gwybodaeth am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chasglu fesul modiwl.

Gall myfyriwr astudio modiwlau mewn nifer o bynciau, a hyd yn oed mwy nag un pwnc mewn modiwl unigol. Gallai unrhyw gyfuniad o bynciau a modiwlau gynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn nad yw'n bosibl adrodd am nifer y pynciau mewn ffordd sy'n gyson â'r cyfansymiau cyfrwng Cymraeg mewn manau eraill ond sydd hefyd yn fanwl gywir o ran canran y myfyrwyr sy'n astudio pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi dewis gwneud y canrannau'n fanwl gywir.

Mae pynciau yr adroddir amdanynt mewn cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn yn rhannu pob myfyriwr ar draws y pynciau maen nhw'n eu hastudio. Pe bai cwrs myfyriwr yn golygu ei fod yn treulio hanner ei amser yn astudio Mathemateg a'r hanner arall yn astudio'r Gyfraith, byddai hynny'n cyfrif fel hanner myfyriwr (0.5) yn astudio Mathemateg a hanner myfyriwr yn astudio'r Gyfraith. Ar ôl i bynciau myfyriwr gael eu cyfrifo mewn cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn, byddwn yn gwirio a gafodd unrhyw ran o bwnc ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, os Mathemateg yw hanner cwrs myfyriwr (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn), a'i fod yn astudio rhywfaint o Fathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, yna mae hefyd yn cyfrif fel hanner myfyriwr yn astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn).

Tabl B.1: Pynciau modiwlau myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n cael rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, 2018/19

<i>Cofrestrïadau (Cyfwerth â Pherson Llawn) a chanrannau</i>			
	Rhywfaint o addysg gyfrwng		Pob cofrestrïadau
	Cymraeg	Canrannau (%)	
Meddygaeth a deintyddiaeth	150	4.2	3,575
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	515	3.5	14,625
Gwyddorau biolegol	445	2.7	16,385
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig	80	6.0	1,315
Gwyddorau ffisegol	85	1.3	6,525
Gwyddorau mathemategol	55	2.2	2,610
Cyfrifiadureg	45	0.8	5,655
Peirianeg a thechnoleg	85	0.8	10,055
Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio	20	1.0	2,150
Astudiaethau cymdeithasol	600	4.6	13,165
Y Gyfraith	125	2.6	4,920
Astudiaethau busnes a gweinyddol	180	1.0	17,250
Cyfathrebu torfol a dogfennu	60	2.1	2,910
leithoedd	510	5.9	8,605
Cymraeg	320	95.6	335
Cymraeg Llenyddiaeth	5	100.0	5
Iaith Geltaidd arall	115	75.8	150
Iaith Ewropeaidd arall	10	0.6	2,185
Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol	115	2.5	4,585
Celfyddydau creadigol a dylunio	1,090	13.0	8,375
Drama	135	15.1	910
Cerddoriaeth	50	3.9	1,245
Sinematograffeg	120	11.3	1,065
Addysg	1,795	18.8	9,515
Hyfforddiant athrawon	1,055	50.8	2,080
Astudiaethau Academaidd mewn Ar	600	13.4	4,470
Pob pwnc	5,965	4.5	132,205

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) □

[\[Gweld y data\]](#)

- Ac eithrio'r Gymraeg, Addysg sydd â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg (1,795) a'r gyfran fwyaf (18.8 y cant).
- Roedd 320 o'r myfyrwyr a oedd yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018/19 yn ei dderbyn drwy fodiwl a oedd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Y pwnc mwyaf poblogaidd oedd Busnes ac Astudiaethau Gweinyddol, ond dim ond 1 y cant o'r myfyrwyr oedd yn derbyn unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Iaith Ewropeaidd Arall oedd y maes pwnc â'r gyfran leiaf o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae cyrsiau Cymraeg yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n cael eu haddysgu 100 y cant drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond 95 y cant yw'r ganran yn y data oherwydd mae'n bosibl bod rhai prifysgolion yn camgofnodi'r gyfran o fodiwl sy'n cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adran C: Siaradwyr Cymraeg

Mae HESA yn casglu data gan bob myfyriwr sydd wedi cofrestru mewn prifysgol yng Nghymru lle mae'r myfyriwr yn preswyl fel arfer yng Nghymru (cyn astudio). Mae'r data yn cofnodi a yw'r myfyriwr yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg ac a yw'n rhugl ai peidio. Mae ansawdd y data ar draws sefydliadau'n amrywio, ac mae gan ambell sefydliad gyfran sylweddol fwy o gofnodion 'anhysbys'. Er hyn, gan fod cyfradd gyffredinol y cofnodion 'anhysbys' yn llai na'r blynyddoedd cynharach, mae'n fwy defnyddiol erbyn hyn ar gyfer dadansoddiadau.

Tabl C.1: Gallu myfyrwyr o Gymru sydd mewn prifysgolion yng Nghymru i siarad Cymraeg, yn ôl y swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2018/19

	Cofrestrïadau						Pob Cofrestrïadau
	Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	o leiaf 120 credyd yn Gymraeg	Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	
Siaradwr Cymraeg rhugl	3,005	2,965	2,090	1,245	645	6,945	9,945
Siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl	885	835	325	120	80	9,040	9,925
Ddim yn siarad Cymraeg	1,705	1,530	185	15	15	43,230	44,935
Anhysbys	185	160	55	*	*	4,710	4,895
Pob myfyriwr	5,775	5,490	2,655	1,380	740	63,925	69,700

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[\[Gweld y data\]](#)

- Roedd nifer myfyrwyr sy'n cael rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn debyg iawn ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd 3,005 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 2,590 myfyriwr nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg, neu a oedd yn siarad Cymraeg, ond nad oeddent yn rhugl yn yr iaith, yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd 15 o'r myfyrwyr a oedd yn astudio o leiaf 120 credyd yn Gymraeg wedi dweud nad oeddent yn rhugl. Mae hyn yn awgrymu bod rhai problemau â'r data o hyd.

Tabl C.2: Prifysgol a gallu i siarad Cymraeg myfyrwyr o Gymru mewn prifysgolion yng Nghymru, 2018/19

	<i>Cofrestriadau</i>				
	Siaradwr Cymraeg rhugl	Siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl	Ddim yn siarad Cymraeg	Anhysbys	Pob cofrestriadau
Prifysgol Bangor	1,540	400	1,960	*	3,905
Prifysgol Glyndŵr	360	755	2,655	75	3,845
Prifysgol Aberystwyth	685	475	1,440	115	2,715
Drindod Dewi Sant	1,030	1,185	4,770	290	7,275
Prifysgol Abertawe	1,605	1,510	6,180	*	9,300
Prifysgol De Cymru	1,390	1,960	11,810	170	15,330
Prifysgol Caerdydd	1,675	1,630	7,565	75	10,945
Prifysgol Fetropolitan Caerdyd	825	815	4,275	155	6,065
Brifysgol Agored	455	815	3,370	3,990	8,625
Pob sefydliadau addysg uwch	9,565	9,545	44,030	4,875	68,010
Grwp Llandrillo Menai	355	335	680	20	1,395
Grwp NPTC	15	30	115	*	160
Coleg Gwyr Abertawe	10	10	110	*	130
Pob sefydliad	9,945	9,925	44,935	4,895	69,700

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[\[Gweld y data\]](#)

- Yn 2018/19, Prifysgol Bangor (39 y cant), Prifysgol Aberystwyth (25 y cant) a Phrifysgol Abertawe (17 y cant) oedd â'r cyfrannau mwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl allan o bob sefydliad addysg uwch. Fodd bynnag, ym Mhrifysgol Caerdydd oedd y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg rhugl. Dim ond 5 y cant o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl.
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ym Mhrifysgol De Cymru wedi aros yn sefydlog ar 9 y cant, fel Glyndŵr. Mae gan Brifysgol Glyndŵr hefyd ganran lawer mwy o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl (20 y cant o gyfanswm y cofrestriadau).
- Yn gyffredinol, roedd bron i ddau o bob tri myfyriwr a oedd yn hanu o Gymru yn ystyried eu hunain yn rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg. Wrth ystyried sefydliadau addysg uwch, ym Mhrifysgol De Cymru oedd y nifer uchaf o fyfyrwyr nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg (77 y cant), gyda Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn ail gyda 70 y cant o fyfyrwyr yn hanu o Gymru nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

Adran D: Addysg Gychwynnol i Athrawon

Mae myfyriwr Addysg Gychwynnol i Athrawon (Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon o'r blaen) yn cael ei gyfrif fel un sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog, sydd wedi cwblhau cwrs a gynlluniwyd er mwyn galluogi myfyrrwyr i addysgu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a allai fod wedi arwain at dystysgrif ffurfiol ar gyfer addysg ddwyieithog, ond nid o reidrwydd.

Tabl D.1: Lefel ysgol myfyrrwyr yn cwblhau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru sy'n arwain at addysgu dwyieithog

		<i>Myfyrrwyr cymwysedig cyrsiau AGA</i>						
		<u>2012/13</u>	<u>2013/14</u>	<u>2014/15</u>	<u>2015/16</u>	<u>2016/17</u>	<u>2017/18</u>	<u>2018/19</u>
Ysgol Gynradd	Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg	160	150	145	145	115	110	100
	Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.	510	520	480	495	525	495	445
Ysgol Uwchradd	Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg	100	145	115	80	80	75	70
	Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.	705	610	570	450	425	375	340
Pob Myfyrrwyr	Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg	255	300	260	225	195	185	170
	Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.	1,210	1,130	1,050	945	950	870	785

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[\[Gweld y data\]](#)

- Fe wnaeth 170 o fyfyrwyr gwblhau cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a oedd yn eu hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Er bod nifer y myfyrrwyr sy'n cwblhau cwrs AGA a oedd yn eu hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng yn y blynyddoedd diweddar, dylid cofio bod niferoedd llai'n cwblhau'n gyffredinol. Felly, mae'r 18 y cant o'r holl rai a gwblhaodd y cwrs wedi'u hyfforddi i addysgu'n ddwyieithog 1 pwynt canran yn uwch nag yn 2016/17 mewn gwirionedd (ond mae'n dal i fod yn is na 2015/16).
- Roedd 18 y cant o'r athrawon cynradd dan hyfforddiant yn gallu addysgu'n ddwyieithog, o gymharu â 17 y cant o'r athrawon uwchradd dan hyfforddiant.

Tabl D.2: Y math o radd sydd gan fyfyrwyr sy'n cwblhau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru sy'n arwain at addysgu dwyieithog

		<i>Myfyrwyr cymwysedig cyrsiau AGA</i>						
		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
TAR	Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg	185	215	185	165	155	135	120
	Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.	980	900	840	735	735	680	610
Gradd Arall	Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg	70	85	80	60	45	50	50
	Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.	230	225	210	210	215	190	175

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[\[Gweld y data\]](#)

- Cafodd saith o bob deg o'r myfyrwyr hyn a gwblhaodd gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon ac a oedd yn gallu addysgu'n ddwyieithog Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).
- Roedd 16 y cant o'r graddedigion TAR yn gallu addysgu'n ddwyieithog, o gymharu â 22 y cant o'r graddedigion â Graddau Eraill.

Tabl D.3: Gallu myfyrwyr cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru i siarad Cymraeg yn ôl lefel eu gallu i addysgu drwy'r Gymraeg (hunanasesiad), 2018/19

	<i>Myfyrwyr cymwysedig cyrsiau AGA</i>		
	Ddim yn siarad		
	Siaradwr Cymraeg rhugl	Cymraeg yn rhugl	Pob cofrestriadau
Wedi hyfforddi i addysgu yn Gymraeg	160	10	170
Heb hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.	90	685	785
Pob Myfyrwyr	250	700	955

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[\[Gweld y data\]](#)


- Mae bron i chwech o bob deg o siaradwyr Cymraeg rhugl ar gyrsiau AGA yn hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg.
- Nid yw tua 1 o bob 20 o fyfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg yn eu hystyried eu hunain yn rhugl yn yr iaith.

Adran E: Staff

Mae'r adran hon yn cynnwys nifer y staff academiaidd sy'n cael ei gyflogi mewn prifysgolion yng Nghymru, ac yn nodi a ydynt yn addysgu, neu'n gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Ar y dechrau, roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ariannu swyddi academiaidd er mwyn hyrwyddo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O 2017/18 ymlaen roedd y Coleg wedi ariannu 16 o Grantiau Pwnc i gefnogi darpariaeth addysg uwch yn ogystal â swyddi academiaidd. Yn 2018/19, cafodd 24 o Grantiau Pwnc eu hariannu, a chafodd 4 Grant Catalydd eu sefydlu i gyflwyno darpariaeth addysg uwch newydd.

Mae'r holl ffigurau yn yr adran hon yn cael eu cyfleu fel cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn oni nodir yn wahanol. Mae rhagor o wybodaeth am staff mewn prifysgolion yng Nghymru i'w gweld ar [StatsCymru](#).

Siart E.1: Cyfrifiadau cyfwerth â pherson llawn â chyfwerth ag amser llawn staff academiaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



[\[Gweld y data\]](#)

- Roedd nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng ychydig yn 2017/18, ond mae bellach wedi dychwelyd i lefel debyg i 2016/17.

Tabl E.1: Prifysgol staff a oedd yn addysgu, neu a oedd yn gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg, 2018/19 (a)

Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)

	Yn addysgu drwy'r Gymraeg	Yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (a)	Nid yw'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Pob cofrestrriad
Prifysgol Bangor	215	300	665	1,020
Prifysgol Glyndŵr	*	10	175	205
Prifysgol Aberystwyth	130	165	540	750
Drindod Dewi Sant	40	310	425	750
Prifysgol Cymru (swyddogaethau canolog)	*	*	*	30
Prifysgol Abertawe	50	80	1,105	1,730
Prifysgol De Cymru	65	105	1,515	1,730
Prifysgol Caerdydd	90	155	2,900	3,330
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	15	40	645	715
Pob SAU yng Nghymru ac eithrio'r Brifysgol Agored	605	1,170	7,965	10,265


Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

(a) Mae'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y rhai hynny sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

[\[Gweld y data\]](#)

- Yn 2018/19, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r nifer mwyaf o staff academiaidd a oedd yn **gallu** addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (310) a Phrifysgol Bangor y nifer mwyaf a oedd **yn addysgu mewn gwirionedd** drwy gyfrwng y Gymraeg (215).
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r gyfran fwyaf (41 y cant) o staff academiaidd a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Prifysgol Caerdydd oedd â'r gyfran leiaf (5 y cant) o staff a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Siart E.2: Staff yn addysgu, neu'n gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg (Cyfwerth â Pherson Llawn)



[\[Gweld y data\]](#)

- Mae'r capasiti i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu 21 y cant rhwng 2011/12 a 2018/19. Yn 2018/19, adferodd y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gostyngiad bach yn 2017/18 gyda chynnydd o 7%.

Tabl E.2: Staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n gallu gwneud hynny mewn prifysgolion yng Nghymru (a)

	<i>Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)</i>						
	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	895	960	960	1,135	1,200	1,090	1,170
Gymraeg	6,520	7,710	8,795	7,870	8,300	8,290	7,965
Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto	2,150	1,470	650	660	740	875	1,130
Cyfanswm	9,565	10,140	10,410	9,670	10,240	10,255	10,265
Yn addysgu drwy'r Gymraeg	635	590	625	590	635	635	605
Ddim yn addysgu drwy'r Gymraeg	6,860	8,465	8,810	7,325	7,665	7,765	6,180
Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto	2,075	1,085	975	1,755	1,945	1,855	3,475
Cyfanswm	9,565	10,140	10,410	9,670	10,240	10,255	10,265

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

(a) Mae'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y rhai hynny sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

[\[Gweld y data\]](#)

- Yn 2018/19 gwnaeth cyfanswm y staff academaidd a oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg syrthio ychydig i 605.
- Gwelwyd cynnydd o 80 yn nifer y staff academaidd a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i 1,170, o gymharu â 1,090 yn 2017/18.
- Roedd 52 y cant o'r staff a oedd yn gallu gwneud hynny, yn darparu rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18, o gymharu â 58 y cant yn 2017/18.
- Noder: mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r rheini sydd ar wefan StatsCymru. Canfuwyd gwall yn y data a ddarparwyd gan HESA i Lywodraeth Cymru ar gyfer Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Cafwyd ffigurau lefel uchel wedi'u cywiro yn uniongyrchol gan y prifysgolion at ddibenion y bwletin hwn. Fodd bynnag, cafodd y dadansoddiad manwl o'r ffigurau hyn sydd ar StatsCymru ei ddarparu gan HESA ac nid yw wedi'i ddiwygio eto.

Tabl E.3: Canolfan gost staff academiaidd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, 2018/19

Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)

	Yn addysgu drwy'r Gymraeg	Ddim yn addysgu drwy'r Gymraeg	Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto	Pob cofrestrriad	Canran fesul Canolfan Gost
Gwasanaethau academiaidd	10	35	50	95	10.7
Astudiaethau gweinyddol, busnes a chymdeithasol	50	820	475	1,345	3.7
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwyddorau milfeddygol	15	95	35	140	9.6
Pensaernïaeth a chynllunio	*	105	35	140	1.4
Gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol	30	775	500	1,305	2.3
Dylunio, celfyddydau creadigol a pherfformio	80	930	115	1,120	6.9
Addysg	195	320	110	620	31.2
Peirianeg a thechnoleg	10	455	670	1,135	0.7
Dyniaethau ac astudiaethau sy'n seiliedig ar iaith ac archaeoleg	120	520	275	915	13.0
Y Gyfraith, Economeg a Gwleidyddiaeth	25	280	155	465	5.4
Meddygaeth, deintyddiaeth ac iechyd	80	1,850	1,060	2,990	2.6
Cyfanswm	605	6,180	3,475	10,265	5.9

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[\[Gweld y data\]](#)

- Roedd y nifer mwyaf o staff a oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym meysydd Addysg, a Dyniaethau, Ieithoedd ac Archaeoleg. Gyda'i gilydd, roedd y canolfannau cost hyn yn gyfrifol am fwy na hanner o gyfanswm y staff a oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Methodoleg

Nodiadau pwysig ynghylch sut y cyfrifwyd yr ystadegau. Mae gwybodaeth fwy manwl am y termau a ddefnyddir yn y bwletin hwn ar gael yn yr adran [Ddiffiniadau](#).

Ffynhonnell y data

Daw'r rhan fwyaf o'r data sydd yn y bwletin hwn o Gofnod Myfyrwyr a Chofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae crynodeb o'r broses o gasglu data Myfyrwyr ar gyfer 2018/19, sy'n cwmpasu amserlenni, dilysu a rheolau busnes a phrosesau gwirio ar gael ar [wefan HESA](#). Mae crynodeb tebyg i'w weld ar gyfer y broses o [gasglu data staff](#).

Cwmpas

Myfyrwyr

Mae'r ystadegau'n cwmpasu'r myfyrwyr sy'n rhan o boblogaeth gofrestru safonol Addysg Uwch HESA, neu ei phoblogaeth cymwysterau a enillwyd mewn Addysg Uwch, yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y poblogaethau hyn ar gael yn y [diffiniadau o fyfyrwyr ar wefan HESA](#).

Bob tro y defnyddir y gair 'myfyrwyr' yn y bwletin hwn rydym yn cyfeirio at 'gofrestriadau myfyrwyr'. Mae hyn yn gyfrif o bawb sydd wedi cofrestru ar gyfer cwrs. Mewn achosion anghyffredin, lle mae myfyriwr wedi cofrestru ar gyfer dau gwrs gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos bod cofrestriadau amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru lai nag 1 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr amser llawn; a bod cofrestriadau rhan-amser lai na 2 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr rhan-amser.

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr cymwysedig' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at 'y cymwysterau a enillwyd'. Mewn achosion anghyffredin, lle mae myfyriwr yn cael dau gymhwyster gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

Staff

Mae pob tabl sydd yn y bwletin hwn yn seiliedig ar boblogaeth contractau staff academiaidd HESA, sy'n cynnwys y contractau hynny a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr o fewn y cyfnod adrodd.

Diffinnir staff academiaidd fel gweithwyr proffesiynol academiaidd sy'n gyfrifol am gynllunio, cyfarwyddo ac ymgymryd â dysgu ac ymchwil academiaidd mewn Sefydliadau Addysg Uwch.

Yn dilyn adolygiad HESA, newidiodd y fethodoleg a ddefnyddir i leoli gweithwyr proffesiynol academiaidd yn 2012/13. Achosodd hyn wahaniaeth sylweddol yng nghanran y staff a ddynodwyd fel "gwybodaeth heb ei cheisio eto" yn y maes yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y strategaeth ynglŷn â thalgrynnu

Mae'r dull o gyflwyno ffigurau yn y Bwletin Ystadegol hwn yn dilyn egwyddorion strategaeth dalgrynnu HESA. Bwriedir i'r strategaeth atal achosion o ddatgelu gwybodaeth bersonol am unrhyw unigolyn. Yn y strategaeth hon, caiff pob rhif ei dalgrynnu i'r 5 agosaf. Dyma grynodedb o'r strategaeth:

- Mae 0, 1, 2 yn cael eu thalgrynnu i 0 a'u cynrychioli â '**'.
- Mae pob rhif arall yn cael ei dalgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

Mae cyfansymiau hefyd yn destun y fethodoleg dalgrynnu hon; o ganlyniad, efallai na fydd cyfanswm y rhifau ym mhob rhes neu golofn yn cyfateb yn union i'r cyfanswm a ddangosir. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio niferoedd crai manwl. Caiff canrannau llai na 0.5 y cant eu cynrychioli â '-'.

Diffiniadau

Diffiniadau ar gyfer adrannau A i C – Myfyrwyr

Swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â faint o'i addysg y mae myfyriwr wedi'i dderbyn drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn honno. Mae'n egluro faint o bob modiwl a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai myfyriwr yn astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel 10 credyd. Mae'r categorïau rhywfaint/5/40/80 hefyd yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae pawb sydd wedi astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg hefyd yn cael ei gynnwys fel un sydd wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

Gradd gyntaf

Mae gradd gyntaf yn cyfeirio at yr hyn y gellid ei ystyried fel y cwrs israddedig "safonol". Nid yw'n golygu mai dyma'r radd israddedig gyntaf y mae myfyriwr wedi'i hastudio.

Mae'n cynnwys graddau cyntaf pa un a ydynt yn arwain at gymhwyster i gofrestru neu ymarfer â chorff rheoleiddio statudol lechyd neu Ofal Cymdeithasol neu Filfeddygol ai peidio, graddau cyntaf â statws athro cymwysedig/cofrestru â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol, graddau cyntaf uwch, graddau cyntaf a sicheir yr un pryd â diploma a graddau cyntaf rhyngosod.

Cyferth ag amser llawn (FTE)

Mae FTE yn cyflwyno data myfyrwyr yn nhermau'r hyn sy'n gyferth â myfyrwyr amser llawn. Mae myfyriwr cyd-anrhydedd sydd â hanner ei gwrs yn fathemateg, yn hanner yr hyn sy'n gyferth â myfyriwr Mathemateg anrhydedd sengl (0.5 FTE). Mae myfyriwr rhan-amser y byddai ei gwrs yn para 6 blynedd yn hytrach na 3 yn cael ei gyfrif fel hanner yr hyn sy'n gyferth â myfyriwr amser llawn (0.5 FTE).

Cyferth â pherson llawn (FPE)

Mae cyfrifiad cyferth â pherson llawn yn rhannu myfyrwyr rhwng y gwahanol ddulliau astudio, beth bynnag yw cyfanswm yr amser y mae myfyriwr yn astudio. Mae myfyriwr cyd-anrhydedd rhan-amser, sy'n astudio hanner Mathemateg, yn dal i gael ei gyfrif fel hanner myfyriwr Mathemateg (0.5 FPE). Mewn cyfrifiad FTE byddai'r myfyriwr cyd-anrhydedd hwnnw'n cael ei gyfrif fel hanner myfyriwr Mathemateg (0.25 FTE), pe bai cyfanswm yr amser y mae'n astudio hefyd yn hanner yr hyn sy'n gyferth â myfyriwr amser llawn.

Rhywedd

Mae rhyweddau eraill (anneuaidd) yn cael eu cynnwys yn y cyfansymiau.

Lefel Astudio

A yw myfyriwr yn astudio cwrs ôl-radd, gradd gyntaf israddedig neu radd israddedig arall. Nid yw myfyrwyr ôl-ddoethurol yn cael eu cynnwys.

Dull Astudio

A yw myfyriwr yn astudio ar sail amser llawn neu'n rhan-amser. Fel arfer mae'n ofynnol i fyfyrwyr amser llawn fynychu sefydliad am gyfnodau sy'n gwneud cyfanswm o 24 wythnos o leiaf ym mlwyddyn y rhaglen astudio. Yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir fel arfer i fyfyrwyr ymgymryd â chyfnodau astudio, dysgu neu brofiad gwaith sy'n gyfanswm o 21 awr yr wythnos o leiaf ar gyfartaledd.

Graddau israddedig eraill

Mae graddau israddedig eraill yn cynnwys nodau cymhwyster is na lefel gradd, megis: Graddau Sylfaen; diplomâu mewn AU â chymhwyster i gofrestru i ymarfer â chorff rheoleiddio Iechyd neu Ofal Cymdeithasol; Diploma Cenedlaethol Uwch (HND); Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC); Diploma Addysg Uwch; Tystysgrif Addysg Uwch; cyrsiau sylfaen ar lefel addysg uwch; NVQ/SVQ lefelau 4 a 5; diplomâu a thystysgrifau ôl-radd ar lefel israddedig; cymwysterau proffesiynol ar lefel israddedig; diplomâu a thystysgrifau israddedig eraill gan gynnwys cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol ôl-gofrestru; cymwysterau addysg uwch ffurfiol eraill is na safon gradd; credydau israddedig sefydliadol a dim cymwysterau israddedig ffurfiol.

Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru

Y myfyrwyr sydd wedi'u categorio fel myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yw'r rhai yr oedd eu cod post cartref yng Nghymru pan oeddent yn mynd i'w sefydliad addysg uwch am y tro cyntaf.

Blwyddyn

Blynyddoedd academaidd yw'r blynyddoedd y cyfeirir atynt, o 1 Awst i 31 Gorffennaf.

Diffiniadau ar gyfer Adran D – Addysg Gychwynnol i Athrawon

Y gallu i addysgu'n ddwyieithog

Diffinnir myfyrwyr fel rhai sy'n 'gallu addysgu yn ddwyieithog' os ydynt yn cymryd rhan mewn cwrs sydd naill ai'n arwain at dystysgrif addysg ddwyieithog ffurfiol, neu nad yw'n arwain at dystysgrif, ond sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y math o radd

Mae TAR yn cynnwys Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion a'r Diploma Proffesiynol mewn Addysg. Cymhwyster lefel gradd Meistr yw'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion, ond nid yw'r Dystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion yn gymhwyster lefel gradd Meistr. Mewn rhai achosion, gallai myfyriwr ddechrau astudio cwrs ôl-radd, ond gadael â chymhwyster israddedig.

Mae mwyafrif y cyrsiau 'Gradd Arall' ar lefel gradd Baglor, gan gynnwys elfen addysgu sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) neu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA) oedd hen enwau Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae'n cwmpasu pob llwybr y bydd rhywun yn ei ddilyn i ddod yn athro – gan ennill SAC. Mae'r bwletin hwn yn cwmpasu pobl sy'n dod yn athrawon drwy gyrsiau Addysg Uwch ffurfiol.

Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Rhaid bod â Statws Athro Cymwysedig er mwyn addysgu mewn ysgol yng Nghymru. Mae SAC yng Nghymru yn wahanol i SAC yn Lloegr neu gofrestr y Cyngor Addysgu Cyffredinol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

Lefel ysgol

Mae 'lefel ysgol' yn nodi a yw'r cwrs yn canolbwyntio ar hyfforddi athrawon ysgol gynradd neu uwchradd. Yn aml, gelwir hyn yn 'gyfnod ysgol'. Pan fydd athro wedi cymhwyso, efallai y bydd yn addysgu ystod oedrannau wahanol i'r un y bu'n hyfforddi ar ei chyfer i gychwyn.

Diffiniadau ar gyfer Adran E - Staff

Cyferwerth ag amser llawn (FTE)

Cofnodir cyferwerth ag amser llawn (FTE) yn y contract ac mae'n mesur yr hyn sy'n gyferwerth ag amser llawn yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

Cyferwerth â pherson llawn (FPE)

Gall unigolion fod â mwy nag un contract gyda sefydliad a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd gwahanol. Mae cyfrifiadau'r staff wedi cael eu rhannu ymhlith eu gweithgareddau yn unol â'r cyfrifiad cyferwerth ag amser llawn sydd wedi'i ddatgan ar gyfer pob gweithgaredd. Mae hyn yn arwain at gyfrif cyferwerth â pherson llawn. Mae cyfrifiadau Cyferwerth â Pherson Llawn y staff yn cael eu seilio ar y gweithgareddau contract a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd.

Staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r tabl contractau'n cynnwys manylion am y staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer y staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfrif y staff academaidd sydd ag o leiaf un contract academaidd sy'n cynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn ôl pum dimensiwn o ansawdd, sef: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae HESA (sef ffynhonnell y data) yn cyhoeddi Ystadegau Gwladol ei hun ac mae'n rhoi manylion am ansawdd ei data [ar ei gwefan](#).

Perthnasedd

Gwnaethpwyd newidiadau i'r bwletin yn dilyn adborth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a swyddogion polisi'r Gymraeg. Yn 2011 gwnaethpwyd newidiadau i gynnwys y bwletin yn dilyn adborth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd, cynhwyswyd y bwletin mewn ymgynghoriad ar ystadegau addysgol, heb ysgogi unrhyw geisiadau allweddol am newidiadau.

Defnyddir yr ystadegau yn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi er mwyn monitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddiadau pellach o'r data sylfaenol. Mae'r prif ddefnyddwyr yn cynnwys:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Adrannau eraill y llywodraeth;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Sefydliadau Addysg Uwch a chyrrff cynrychioladol;
- Myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau;

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn ffyrdd amrywiol e.e.:

- Fel sail i'r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r polisi addysg yng Nghymru ac fel sail i'r strategaethau presennol, er enghraifft, y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Cywirdeb

Newidynnau sy'n cael eu hunanasesu

Mae llawer o feysydd allweddol HESA sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn dibynnu ar asesiad y myfyriwr neu'r brifysgol. Mae'r dangosydd WELSSP ar gyfer gallu'r myfyriwr i siarad Cymraeg yn cael ei hunanasesu gan y myfyriwr a gall y safon ar gyfer rhuglder newid o'r naill berson i'r llall. Nodir arwyddion nad yw'r dangosydd yn ddibynnol bob amser dan dabl D.1.

Defnyddir preswylfan myfyriwr yn hytrach na chofnod o'i genedl. Fodd bynnag, nid yw'n wir bob tro bod myfyriwr o Gymru yn preswyllo yng Nghymru. Gallai myfyriwr fod wedi symud o Gymru ychydig cyn cychwyn ei gwrs, a gallai hyn olygu bod myfyrwyr nad yw eu preswylfan yng Nghymru yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr un modd, defnyddir y maes LANGPCNT er mwyn canfod a yw myfyriwr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a faint y mae wedi ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r maes hwn yn cael ei asesu gan y brifysgol a gallai prifysgolion asesu cynnwys cyfrwng Cymraeg modiwlau yn wahanol. Yn 2015/16,

darganfuwyd nad oedd rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesu fel rhai a oedd yn cael eu hastudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i sefydliadau naill ai gyflwyno cyfartaleddau cyrsiau neu'r gwerthoedd gwirioneddol am bob cofrestriad i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Ar gyfer yr ystadegau a ddefnyddir yn y bwletin hwn, nid yw gwerthoedd cyfartalog y cyrsiau'n briodol. Mae'n goramcangyfrif nifer y myfyrwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd bydd gan ragor o fyfyrwyr werthoedd dim-sero.

Diwygiadau

Yn 2011 daeth i'r amlwg bod Prifysgol Cymru, Casnewydd (Prifysgol De Cymru erbyn hyn) wedi cyflwyno gwerthoedd cyfartaledd cyrsiau ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a oedd yn bodloni gofynion HESA, ond nad oeddent yn cynnwys y manylder sy'n ofynnol ar gyfer yr ystadegau hyn. Cafwyd data diwygiedig yn uniongyrchol gan Brifysgol Cymru, Casnewydd ar gyfer 2008/09, 2009/10, 2011/12 ac yn ddiweddarach gan Brifysgol De Cymru ar gyfer 2013/14. Er hyn, nid oedd y data diwygiedig yn cynnwys y manylder sy'n ofynnol ar gyfer y bwletin hwn, neu StatsCymru, felly maent wedi cael eu cynnwys mewn troednodiau yn unig.

Amseroldeb a phrydlondeb

Casglodd HESA ddata cofrestriadau myfyrwyr a staff ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 rhwng Awst a Hydref 2018. Cynhyrnod ei datganiad ei hun ar Gofrestriadau Myfyrwyr Addysg Uwch a'r Cymwysterau a Gafwyd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn Ionawr 2020 a rhyddhaodd ei chyhoeddiad diweddaraf am Staff mewn Addysg Uwch ym Mawrth 2020. Mae'r bwletin Cyfrwng Cymraeg hwn yn tynnu sylw at ddimensiwn penodol Gymreig i'r data a gesglir am fyfyrwyr a staff. Symudwyd dyddiad rhyddhau'r bwletin hwn ymlaen o fis Medi i fis Awst er mwyn gwella prydlondeb.

Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddir gwybod am y bwletin ystadegol hwn o flaen llaw ac yna caiff ei gyhoeddi yn adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru.

I gyd-fynd â'r bwletin hwn ceir tablau manylach yn [StatsCymru](#), safle dosbarthu sy'n galluogi ymwelwyr i weld, addasu a chreu tablau i'w lawrlwytho.

Cymaroldeb a chydlyniaeth

Oherwydd testun y bwletin hwn, nid oes ystadegau y gellir cymharu â hwy wedi'u cynhyrchu ar gyfer gwledydd eraill y DU. Mae'r diffiniadau'n gyson â datganiadau Addysg Uwch eraill Llywodraeth Cymru, ar wahân i'r dadansoddiadau o bynciau sy'n cael eu cyfrifo fesul modiwl yma er mwyn ymgorffori'r wybodaeth cyfrwng Cymraeg.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant i Gymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:

<https://llyw.cymru/yr-iaith-gymraeg-mewn-sefydliadau-addysg-uwch>

Mae tablau sy'n gysylltiedig â'r bwletin hwn ac sy'n cynnwys mwy o fanylion ar gael drwy [StatsCymru](#), sef gwasanaeth dosbarthu data rhyngweithiol Llywodraeth Cymru.

Y diweddariad nesaf

Gorffennaf 2021 ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost i ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0](#), oni nodir yn wahanol.

